**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: CG/PO/40/2024
Ein cyf/Our ref: qA1762325

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

6 Chwefror 2024

Annwyl Huw,

Diolch am eich adroddiad ar y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru). Byddaf yn ymateb i'r adroddiad yn llawn maes o law. Yn y cyfamser, gofynnoch yn yr adroddiad o dan argymhellion 13 a 14 i Lywodraeth Cymru ddarparu datganiad o fwriad polisi cyn Cyfnod 2. Mae'r llythyr hwn yn cynnwys y datganiadau hyn isod.

Yn gyntaf, mewn perthynas ag argymhelliad 13 i gyhoeddi datganiad polisi sy'n bwriadu amlinellu'r swyddogaethau y caniateir eu rhoi i bersonau neu gategorïau o berson a bennir mewn rheoliadau a wnaed o dan adran 27 o'r Bil, bwriad y polisi hwn yw sicrhau bod platfform yn cael ei ddarparu sy'n darparu gwybodaeth hygyrch, dibynadwy, annibynnol a chywir sy'n cefnogi pleidleiswyr i gymryd rhan yn ein system ddemocrataidd. Rydym am i bob pleidleisiwr allu cael gafael ar wybodaeth sy'n eu cefnogi i ddeall (er enghraifft) pa etholiadau sy'n digwydd, opsiynau ynghylch sut i fwrw eu pleidlais, y math o system bleidleisio sy'n cael ei defnyddio, lle gallant bleidleisio a thros bwy y gallant bleidleisio.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i bennu egwyddorion cynnwys, meini prawf hygyrchedd a gofynion iaith, a phenderfynu ar y ffordd orau o osod y rheoliadau ar sut y dylid cyflawni'r swyddogaethau hyn. Rhan o gyflawni hyn fydd rhoi swyddogaethau ar westeiwr i gyflawni, gweithredu a chynnal y platfform. Bydd ein gwaith gyda rhanddeiliaid yn ein helpu i fireinio a phenderfynu ar y ffordd fwyaf priodol i reoliadau alluogi cyflwyno'r platfform, gan nodi manylion a sicrhau tryloywder.

Mae'r cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn a fydd mewn rheoliadau yn sicrhau hyblygrwydd i ystyried y cyd-destun cyfreithiol a thechnolegol sy'n symud yn gyflym, gyda'r craffu priodol ar waith.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ail, mewn perthynas ag argymhelliad 14 i gyhoeddi datganiad polisi sy'n bwriadu amlinellu'r swyddogaethau y caniateir eu rhoi i bersonau o fewn rheoliadau a wneir o dan adran 29 o'r Bil, yn dibynnu ar natur y cynllun ariannol, rhagwelir y gallai'r swyddogaethau y gellir eu rhoi o dan adran 29(8) fod yn rhai sy'n caniatáu, ymhlith eraill, y canlynol:

- sefydlu meini prawf cymhwysedd ar gyfer y cynllun penodol a mecanweithiau galluogi i sicrhau bod y meini prawf yn cael eu bodloni cyn dyrannu cyllid.

- cynhyrchu canllawiau i'r rhai sydd â diddordeb mewn cael mynediad at gynllun a sut y bydd yn gweithredu.

- trefniadau ar gyfer taliadau cyllid sy'n cwrdd â'r arfer gorau o ran rheoli ac archwilio ariannol.

- hyrwyddo'r cynlluniau a'r cyngor am yr hyn y bydd cynllun yn ei gefnogi a beth na fydd yn ei gefnogi.

- trefniadau gweinyddol ar gyfer cynllun gan gynnwys mecanweithiau adrodd o ran sut mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio ym mhob cynllun. Er y bydd angen i unrhyw sefydliad sy'n gweithredu cynllun cymorth ariannol gael manylion llawn ymgeiswyr a derbynwyr cymorth, ni fydd yn ofynnol i'r wybodaeth bersonol hon gael ei rhannu y tu allan i'r cynllun.

Wrth weithredu cynllun byddem yn disgwyl i sefydliadau weithredu i safonau uchel o lywodraethu a gweithredu mewn ffordd agored a thryloyw.

Gobeithiaf y bydd y wybodaeth hon yn bodloni eich cais am ddatganiadau polisi cyn Cyfnod 2 ac edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda chi wrth i'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) fynd rhagddo drwy'r broses graffu.

Yn gywir,



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution